Adran Gwaith a Phensiynau

# Symud i **Gredyd Cynhwysol**

**Hawdd i'w Ddarllen**



Ein cyfeirnod: **UCM1WER** 05/25


# Cynnwys


1

**Cyflwyniad**

Tudalen 3

2




**Mae Credyd Cynhwysol yn disodli rhai budd-daliadau**

Tudalen 5

3




**Cysylltwch â ni**

Tudalen 8

# 1 Cyflwyniad

Adran Gwaith a Phensiynau

Mae Credyd Cynhwysol yn fudd-dal o’r Adran Gwaith a Phensiynau.




Mae’n helpu i dalu’ch costau bywyd bob dydd.

UC Credyd Cynhwysol

Efallai y gallwch gael Credyd Cynhwysol os:

- Rydych allan o waith
- Rydych mewn gwaith ac mae gennych enillion isel.

Bydd y mwyafrif o geisiadau newydd am fudd-dal yn geisiadau am Gredyd Cynhwysol.

## Lle rydych yn byw




I gael Credyd Cynhwysol, mae'n rhaid i chi fyw yng Nghymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon neu'r Alban.

I gael rhagor o wybodaeth Hawdd i'w Ddarllen am Gredyd Cynhwysol, ewch i www.gov.uk


Chwiliwch am **Easy Read Universal Credit**.

# 2 Mae Credyd Cynhwysol yn disodli rhai budd-daliadau




Mae Credyd Cynhwysol yn disodli neu wedi disodli'r budd-daliadau canlynol:

- Budd-dal Tai
- Cymhorthdal Incwm
- Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm




- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar incwm
- Credyd Treth Plant
- Credyd Treth Gwaith.



Pan ddaw'r amser i symud i Gredyd Cynhwysol, bydd yr Adran Gwaith a Phensiynau yn ysgrifennu atoch.




Cadwch lygad am lythyr o'r enw Hysbysiad Trosglwyddo i Gredyd Cynhwysol.

Bydd hwn yn dweud wrthych beth sydd angen i chi ei wneud a phryd i wneud cais am Gredyd Cynhwysol.




Bydd aros am eich llythyr yn golygu y byddwch yn parhau i gael cymorth ariannol pan fyddwch yn gwneud cais am Gredyd Cynhwysol.



Mae hyn yn golygu y byddwch yn gallu cael o leiaf yr un lefel o gymorth ag yr ydych yn ei gael ar eich budd-daliadau presennol.




Os bydd eich amgylchiadau'n newid cyn i ni gysylltu â chi, rhowch wybod i ni cyn gynted â phosibl.

# 3 Cysylltwch â ni




Mae’r rhan fwyaf o bobl yn gwneud cais am Gredyd Cynhwysol ac yn cysylltu â nhw gan ddefnyddio eu cyfrif ar-lein.




Efallai bod gennych chi anabledd sy’n golygu na allwch ddefnyddio cyfrifiadur.



Os oes angen help arnoch ac na allwch gael mynediad at ein gwasanaeth ar-lein, cysylltwch â’r **Llinell gymorth Symud i Gredyd Cynhwysol**.

Fe welwch y rhif hwn ar eich llythyr.




Mae’r llinell gymorth ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener, 8am i 6pm.

Am fwy o wybodaeth am symud i Gredyd Cynhwysol a phwy i gysylltu â nhw, ewch i ucmove.campaign.gov.uk/cy/